# Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

**CYLCHLYTHYR**

Rhifyn 61 Tymor yr Haf 2025

## Yn y rhifyn hwn:

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Nodyn gan y Cadeirydd | 2 |
| Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol | 3 |
| Hysbysiadau Cosb Benodedig a Diweddariad Presenoldeb | 5 |
| Cefnogi'r Fenter Urddas Mislif! | 6 |
| Perthnasoedd Iach (SHOT) a Chynllun Cerdyn C | 9 |
| Gwahoddiad Prosiect Ymchwil – Diwygio ADY ac Addysg Gynhwysol | 12 |
| Dysgu Cymraeg y Fro | 13 |
| Diweddariad Tymor yr Haf am Ddysgu a Sgiliau | 14 |
| Ynghylch Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro | 16 |
| Uned Cymorth Llywodraethwyr Bro Morgannwg | 17 |




Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

CYLCHLYTHYR

Rhifyn 61 Tymor yr Haf 2025

# Nodyn gan y Cadeirydd

Ni allwch ddianc rhag Deallusrwydd Artiffisial – AI. Mae ym mhobman – ar gyfryngau cymdeithasol ac yn y newyddion ar bapur ac ar-lein. Gan ddibynnu ar ba arbenigwr rydych chi'n ei gredu, bydd AI yn awtomeiddio tasgau clercol cyffredin ac yn achosi diswyddiadau eang; yn dinistrio gwasanaeth cwsmeriaid wyneb yn wyneb; yn gwneud llawer mwy o gamgymeriadau gwirion nag y gall bodau dynol byth eu gwneud; yn ysgrifennu barddoniaeth ofnadwy; yn arwain at Armagedon wrth i'r peiriannau gymryd drosodd.

Rwyf wedi cael y fraint o weithio gyda rhai pobl sy'n edrych ar hyn yn bwyllog ac yn rhesymegol ac sy’n gweld sut gall eu busnes fanteisio ar gynnydd technegol mewn ffordd reoledig. Fe gymeron nhw dair o'r systemau AI cystadleuol a gofyn i bob un ysgrifennu post blog yn cyflwyno Cod Ymarfer newydd, gan ddefnyddio gwybodaeth o ddogfennau penodol yn unig a pheidio â rhannu unrhyw beth â'r byd ehangach.

Cynhyrchwyd tair dogfen dda ar unwaith; fodd bynnag, roedden nhw'n wahanol iawn o ran tôn. Roedd yr un gyntaf yn rhybuddiol – rhaid i chi ddilyn hyn neu bydd goblygiadau. Roedd yr ail un yn cyfleu agwedd o geisio cynnig help – bydd y cod hwn yn eich helpu i gyflawni eich dyletswyddau cyfreithiol a moesegol. Roedd y drydedd un yn fwy niwtral gan dynnu sylw ar bwyntiau allweddol i gadw llygad amdanynt. Nid oedd yr un ohonynt yn addas i'w hanfon allan heb feddwl ac ailysgrifennu sylweddol i gyfleu’r neges iawn, er bod pob un ohonynt yn fan cychwyn da i ysgrifennwr copi proffesiynol ac yn arbed cryn dipyn o amser.




Sut mae hyn i gyd yn berthnasol i’ch gwaith yn ysgolion y Fro? Bu llawer o sôn am fyfyrwyr yn defnyddio AI i ysgrifennu traethodau a gwaith cwrs, a sut y gellir canfod ac atal hyn. Ai dyna'r ymateb cywir? Ddylen ni fod yn dysgu myfyrwyr i ddefnyddio AI mewn ffordd gyfrifol gyda llygad beirniadol? Mae rhai ohonynt eisoes ymhell i lawr y llwybr, beth bynnag. Gadewch i ni ei wneud yn rhywbeth sy'n gwella eu haddysg, nid creu llwybrau byr annheg.

Mae AI yn gyfle gwych/ofnadwy ac mae'r bobl ifanc yn ein gofal yn cael eu magu mewn byd gydag AI ynddo. Mae angen iddynt allu gwneud pethau da gydag AI. Mae'n offeryn anhygoel o bwerus, ond mae angen hyfforddiant priodol arno i wneud y gorau ohono. Beth mae eich ysgol yn ei wneud i'w helpu?

# Rheoli’r Cyfryngau Cymdeithasol

**Ymdrin â rhyngweithiadau ar-lein negyddol**

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn her barhaus i ysgolion ac awdurdodau lleol, yn enwedig pan fo negeseuon yn negyddol neu'n feirniadol. Ar y gorau, maen nhw'n foment mewn amser, wedi'u hanghofio'n gyflym; ar y gwaethaf, gallan nhw arwain at waethygu sefyllfa sy'n anodd ei rheoli. Gall hyn wedyn arwain at sylw pellach, trolio a gelyniaeth, gan effeithio'n negyddol ac yn annheg ar enw da ysgol neu awdurdod lleol, nid yn unig ymhlith gofalwyr, rhieni a disgyblion, ond hefyd o fewn y gymuned leol a hyd yn oed, mewn rhai achosion, yn genedlaethol.



**Beth galla i ei wneud fel llywodraethwr?**

Fel Corff Llywodraethu, mae'n bwysig cefnogi'r Pennaeth a'r staff gyda'i gilydd wrth ystyried sut mae'r ysgol yn cyfathrebu, pa wefannau cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu defnyddio, a phwy sy'n postio? Dylai pwy bynnag sydd â'r swydd honno fod yn gyfarwydd iawn ag agwedd yr ysgol at y cyfryngau cymdeithasol a meddu ar yr awdurdod i siarad ar ran yr ysgol.

Dylai pawb fod yn ymrwymedig i gefnogi pwy bynnag sy'n cynnal cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ysgol. Dylai staff a llywodraethwyr alinio â gweledigaeth yr ysgol ar gyfer cyfathrebu digidol gan fod ganddynt ddyletswydd i sicrhau diogelwch pawb, sy'n cynnwys diogelu oedolion yn ogystal â phlant.

Mae hefyd yn hanfodol bod ysgol yn sicrhau bod eu polisi cwynion ar gael yn rhwydd, a bod rhieni a gofalwyr yn gwybod sut i godi eu pryderon yn uniongyrchol i'r ysgol ac y byddan nhw’n cael eu clywed. Yn rhy aml, mae rhieni’n rhefru ac yn gwneud sylwadau negyddol oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o brosesau cwyno, neu efallai y bydd ganddynt bryderon sydd, yn eu tyb nhw, wedi cael eu diystyru neu eu hystyried yn ddibwys.


**Mae sylw neu bost wedi dod i sylw'r ysgol....**

Mae'r siart isod yn nodi proses strwythuredig y gellid ei dilyn pe bai post neu sylw yn cael ei roi ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'n syniad da dynodi un neu ddau aelod o staff i fod yn uniongyrchol gyfrifol am asesu negeseuon cyfryngau cymdeithasol, y mae staff a llywodraethwyr yn glir bod angen iddynt gyfeirio unrhyw sylwadau neu negeseuon yn uniongyrchol atynt.

Mae'r siart yn awgrymu y dylai'r person hwn wneud y canlynol:

1. **Categoreiddio'r sylw neu'r neges:** A yw'n feirniadaeth adeiladol? Camwybodaeth? Adborth Gelyniaethus neu Faleisus, niwtral neu heriol?

2. **Asesu'r ffynhonnell:** Ydyn nhw'n sylwebydd credadwy sydd â gwybodaeth am y sefyllfa (e.e. rhiant), a oes ganddyn nhw ddylanwad yn y gymuned leol? Ydy hyn yn rhywbeth maen nhw wedi'i wneud o'r blaen?
3. **Dadansoddi'r cynnwys:** Beth yw'r themâu allweddol? Ydy eu honiad neu eu sylw yn ffeithiol gywir? Beth am y dôn a'r iaith?
4. **Gwerthuso'r effaith:** Ydy'r sylw hwn yn niweidio eich hygrededd neu eich enw da, neu berthnasoedd? Fydd e'n effeithio ar forâl y staff neu'r llywodraethwyr? Ydy eraill yn rhyngweithio â'r sylw – ydy e'n tynnu sylw llawer o bobl?
5. **Penderfynu sut i ymateb:** Ydych chi'n bwriadu ymateb yn gyhoeddus i gywiro camwybodaeth neu egluro polisïau, neu fyddwch chi'n ymgysylltu'n breifat, efallai os yw'r pryderon yn ddilys ond bod y mater yn gymhleth? Ee: "Hoffen ni drafod eich pryderon ymhellach. Anfonwch e-bost atom yn...." Neu ydych chi'n mynd i wneud dim, yn dilyn eich asesiad uchod yn y 4 cam cyntaf? Efallai y byddwch chi'n penderfynu peidio ag ymateb, er mwyn osgoi gwaethygu'r sefyllfa ac, yn lle hynny, atgyfnerthu negeseuon cadarnhaol mewn mannau eraill.
6. **Cofnodi a dysgu:** Dylech chi gadw cofnodion o sylwadau ac ymatebion at ddiben cyfeirio yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i dracio patrymau, themâu a sylwadau ailadroddus a bydd hefyd yn rhoi cyfle i adolygu'r rhain yn rheolaidd a pha mor llwyddiannus yw eich ymatebion. Er enghraifft, gallech chi gategoreiddio sylwadau'n risg isel, yn risg canolig ac yn risg uchel neu'r tebygolrwydd o rywbeth yn gwaethygu yn annhebygol, yn bosibl neu'n debygol. Pa system bynnag rydych chi'n penderfynu ei defnyddio, bydd yn offeryn gwerthfawr i sicrhau ymateb cyson, i'r hyn sy'n fater parhaus sy'n annhebygol o ddiflannu.



Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

CYLCHLYTHYR

Rhifyn 61 Tymor yr Haf 2025

# Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCBau) Ysgol
# Hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr ysgol

Ydych chi'n ymwybodol bod ysgolion Bro Morgannwg yn defnyddio **Hysbysiadau Cosb Benodedig** fel eu **hofferyn rheoli absenoldeb cyfle olaf** am ddiffyg presenoldeb ac am absenoldeb gwyliau anawdurdodedig? P'un a ydy'ch ysgol yn ystyried HCBau neu'n defnyddio HCBau ar hyn o bryd ond rydych chi eisiau cael mwy o wybodaeth, dewch draw i un o'n sesiynau hyfforddi.

**Mae dros 200 o geisiadau HCB wedi'u cyflwyno yn 2024-2025** yn unig. Fel llywodraethwr, dylech chi sicrhau bod eich ysgol yn gwbl ymwybodol o'r broses HCB ddiweddaraf.

Mae sesiynau hyfforddi HCB yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a byddwch yn gadael yn gwbl wybodus ac yn barod i drafod yn eich Corff Llywodraethu ynghylch sut gallai'r offeryn presenoldeb hwn fod o fudd i lefelau presenoldeb eich ysgol. Mae llywodraethwyr a staff addysgu eisoes wedi mynychu'r hyfforddiant dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n galluogi ysgolion a chyrff llywodraethu i gael dealltwriaeth gliriach o pryd y dylid ystyried HCBau.

Mae presenoldeb yn yr ysgol yn parhau i fod yn her, felly mae'n bwysig bod Llywodraethwyr yn deall yr holl brosesau sydd ar waith i wella presenoldeb disgyblion. Cofrestrwch eich diddordeb i fynd i sesiwn hyfforddi HCB trwy e-bostio inclusionteamreferrals@valeofglamorgan.gov.uk




**Ymgyrch Presenoldeb yn yr Ysgol**

Wrth i ni agosáu at ddiwedd tymor yr haf, rydym eisoes yn cynllunio ar gyfer 2025-2026. Bydd ymgyrch presenoldeb yn yr ysgol wedi'i hadnewyddu'n cael ei hail-lansio'n barod ar gyfer mis Medi a fydd yn cynnwys baner presenoldeb newydd i'w harddangos ar gât yr ysgol i atgoffa dysgwyr a rhieni o'r dywediad 'Colli Ysgol, Colli Cyfle'. Gofynnwch i'ch Pennaeth amdano os na allwch weld un yn eich ysgol.

Bydd negeseuon e-bost yn cael eu hanfon at bob teulu ym Mro Morgannwg gen i a'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn atgoffa rhieni bod plentyn gyda 90% o bresenoldeb yn cael ei ystyried yn **absennol yn barhaus** gan Lywodraeth Cymru, gan golli o leiaf 19 diwrnod ysgol os yw eu presenoldeb yn parhau i fod yn 90% neu'n is ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. Bydd ein hymgyrch yn parhau trwy gydol y flwyddyn a bydd yn cyd-fynd ag adroddiad thematig wedi'i ddiweddaru gan Estyn ar 'wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd', y gellir ymgorffori llawer o'r arferion effeithiol ohono mewn ysgolion cynradd hefyd. [Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd - diweddariad am gynnydd]

Rydym eisiau cefnogi'r holl waith ardderchog y mae ein hysgolion yn ei wneud i herio presenoldeb. Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn Llywodraethwr Hyrwyddwr Presenoldeb ar gyfer eich ysgol, siaradwch â'ch Pennaeth neu Gadeirydd y Llywodraethwyr, neu anfonwch e-bost ata i yn

# Cefnogi'r Fenter Urddas Mislif!

Mae Bro Morgannwg yn cefnogi menter Urddas Mislif Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod pob dysgwr yn y sir yn gallu cael nwyddau mislif am ddim. Nod y cynllun yw torri tabŵs, annog sgyrsiau agored a helpu disgyblion i ddeall cyfnodau a cheisio cymorth pan fo angen.

Mae nwyddau’n cael eu dosbarthu mewn modd cynnil i ddisgyblion oedran ysgol trwy'r gwasanaeth dosbarthu cartref ac maent ar gael i bob aelod o'r cyhoedd, gyda ffocws ar fyfyrwyr incwm isel ac agored i niwed. Mae Llywodraeth Cymru’n mynnu bod o leiaf 80% o'r cyllid yn cael ei ddyrannu i opsiynau ecogyfeillgar, gan hyrwyddo nwyddau y gellir eu hailddefnyddio. Mae tîm y Fro yn gweithio mewn partneriaeth â chyflenwyr cynaliadwy ac ar hyn o bryd mae'n cynnal tendr ar y cyd gyda Chyngor Caerdydd ac Ardal a ddylai ddod i rym o fewn y misoedd nesaf.

**Nwyddau sydd mewn stoc:**

| | | |
|---|---|---|
| Nicers mislif amldro | Padiau amldro | Cwpanau mislif |
| Padiau – Canolig/Mawr | Padiau leinin ysgafn | |
| Tamponau â dodwr - Cyffredin/Mawr | Tamponau heb ddodwr - Cyffredin/Mawr | |

**<u>Archebu Nwyddau Mislif ar gyfer Ysgolion yn y Fro</u>**

Mae pob ysgol yn y Fro yn gallu prynu nwyddau mislif yn uniongyrchol gan gyflenwyr i'w defnyddio yn eu hysgol. Dilynwch y camau isod i sicrhau bod y broses yn mynd yn rhwydd:

1. Cymeradwyaeth Gychwynnol
   Cysylltwch â Thîm Urddas Mislif y Fro yn perioddignity@valeofglamorgan.gov.uk i gadarnhau bod y nwyddau’n bodloni'r meini prawf gofynnol (e.e. ecogyfeillgar ac yn gymwys o dan y grant) a bod yr archeb arfaethedig yn briodol yn ariannol.
2. Gwneud yr Archeb
   Unwaith y bydd y Tîm Urddas Mislif wedi cymeradwyo'r nwyddau a'r nifer ohonynt, mae’r ysgol yn gallu bwrw ymlaen â gwneud yr archeb ac aros am ddosbarthu.
3. Ad-dalu
   Ar ôl i'r nwyddau gael eu dosbarthu, bydd y gost yn cael ei had-dalu i gyllideb yr ysgol gan y Tîm Urddas Mislif. Sylwch efallai na fydd unrhyw archebion a wnaed heb gymeradwyaeth ymlaen llaw yn gymwys i gael ad-daliad a gallai fod angen eu talu trwy gyllideb yr ysgol ei hun.

## Sesiynau Addysg i Ddysgwyr

Mae athro ymroddedig wedi'i benodi i gyflwyno sesiynau addysgol ar draws pob ysgol, gyda ffocws cychwynnol ar ysgolion cynradd. Nod y sesiynau hyn yw hysbysu disgyblion am y mislif, cylchoedd mislif a'r defnydd o nwyddau cysylltiedig. Mae pob disgybl sy'n dod i sesiwn yn derbyn bag o nwyddau i fynd ag ef adref. Mae adborth o'r sesiynau hyn wedi bod yn hynod gadarnhaol gan Ddysgwyr ac Ysgolion. Os hoffai unrhyw un archebu sesiynau, cysylltwch â PDignityP5@Hwbcymru.net

## Gwasanaeth Danfon i'r Cartref Am Ddim

Mae pobl ifanc sy'n byw neu sy'n mynychu ysgol ym Mro Morgannwg yn gallu trefnu i nwyddau mislif am ddim gael eu danfon i'w cartrefi. Mae'r gwasanaeth yn ddiogel ac yn gyfrinachol ac mae'n sicrhau nad oes unrhyw ddysgwr yn mynd heb gymorth hanfodol.

I gofrestru ar gyfer danfoniadau yn ystod y tymor, rhaid i bobl roi eu henw llawn, enw eu hysgol, eu grŵp blwyddyn a'u chyfeiriad cartref. Gallan nhw ofyn am nwyddau naill ai yn:

🔗 Urddas Mislif 📧 E-bost: perioddignity@valeofglamorgan.gov.uk



## Mannau Casglu/Safleoedd Urddas Mislif

Mae'r Cynllun Urddas Mislif hefyd ar gael i bob preswylydd ym Mro Morgannwg. Mad tua 70 o Safleoedd Urddas Mislif, gyda nifer y safleoedd hyn yn cynyddu trwy'r amser oherwydd angen a phobl yn lledaenu'r gair. Mae gennym hefyd dros 30 dosbarthwr Dewis a Chymysgu ar draws y Fro sy'n profi'n hynod boblogaidd. Os ydych chi am gyfeirio teuluoedd at hyn, mae rhestr/map o safleoedd ar dudalennau gwe Urddas Mislif:

Urddas Mislif

**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:**

Laura Ellis – Swyddog Monitro Teuluoedd yn Gyntaf – LPEllis@valeofglamorgan.gov.uk

Debbie Maule - Rheolwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Strategol - dmaule@valeofglamorgan.gov.uk



# Gwasanaeth Perthnasoedd Iach YMCA Caerdydd a'r Cynllun Cerdyn C

Mae'r Gwasanaeth Perthnasoedd Iach yn darparu cymorth cyfrinachol wedi'i dargedu i bobl ifanc o Flwyddyn 7 ymlaen ynghylch iechyd rhywiol a pherthnasoedd.

Rydym yn deall bod rhai myfyrwyr angen arweiniad mwy personol na'r hyn sy'n bosibl mewn lleoliadau dosbarth mawr. Dyna pam rydym yn cynnig model hyblyg o gymorth, gan gynnwys sesiynau un-i-un a grwpiau sy'n seiliedig ar atgyfeirio. Mae ein sesiynau wedi'u teilwra i anghenion pob person ifanc a gallan nhw gynnwys:

- Mynediad i glinigau iechyd rhywiol
- Atal cenhedlu a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- Cydsyniad a Pherthnasoedd
- Gwrywdod a chasineb at fenywod
- Diogelwch ar-lein a phornograffi
- Cymryd risgiau rhywiol

Mae'r sesiynau hyn wedi'u dylunio i ategu cwricwlwm APIRh presennol. Rydyn ni'n gallu gweithio'n agos gydag ysgolion i nodi pobl ifanc y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae sesiynau bob amser yn cael eu cyflwyno mewn ffordd ddiogel a chynhwysol ac maen nhw'n cael eu harwain gan ymarferwyr hyfforddedig.

Ynghyd â'n gwaith perthnasoedd iach, mae pobl ifanc 13-24 oed yn gallu cael mynediad i'r Cynllun Cerdyn C. Mae hwn yn wasanaeth iechyd rhywiol ledled y DU sydd â'r nod o 'leihau beichiogrwydd heb ei gynllunio a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, cynyddu argaeledd a derbynioldeb condomau, a grymuso pobl ifanc i gael mynediad i wasanaethau perthnasol' (Cerdyn C Cymru Gyfan). Mae'r cynllun hwn yn cynnig:

- Condomau ac iraid am ddim
- Mynediad i gyngor iechyd rhywiol dienw
- Atgyfeiriadau am gymorth pellach lle bo angen

Mae'r cynllun yn gyfrinachol, yn rhad ac am ddim, ac wedi'i dylunio i gael gwared ar stigma ynghylch addysg iechyd rhyw. Nid yw'n ymwneud ag atal cenhedlu yn unig – mae'n gyfrwng ar gyfer sgyrsiau agored, anfarnol sy'n helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus. Pan fydd ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth â ni, bydd disgyblion yn cael cyfle i gofrestru a chael condomau trwy aelodau hyfforddedig o staff sy'n cael eu cefnogi'n barhaus gan dîm YMCA Caerdydd. Rydym am weithio'n hyblyg gydag ysgolion i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n gweithio ar gyfer anghenion penodol pob darpariaeth.

### Astudiaeth Achos 1: Meithrin Gwrywdod Cadarnhaol (Bl 12)

Yn ddiweddar, cymerodd grŵp bechgyn Blwyddyn 12 ran mewn sesiynau am Berthnasoedd Iach, Cydsyniad a Gwrywdod, dan arweiniad Sarah, Cydlynydd Prosiect y Fro. Roedd hyn yn effeithio’n benodol ar un myfyriwr a siaradodd ef â'i gariad o ran a oedd hi erioed wedi teimlo dan bwysau i gael cyfathrach. Arweiniodd hyn at drafodaeth onest am y rhywiaeth y mae'n ei brofi bob dydd. Yn ddiweddarach, rhannodd ef ei fyfyrdodau â'i diwtor lles, gan fynegi syndod ac empathi am yr heriau sy'n wynebu merched ei oedran ef.

*"Maen nhw'n anfarnol iawn ac yn gwrando ar bopeth sydd gennym i'w ddweud."*

Ers y sesiynau, mae wedi mynd ati i herio ymddygiadau rhywiaethol, homoffobig a gwenwynig ymhlith cyfoedion. Mae llawer o fyfyrwyr o'r grŵp bellach yn cyrchu'r gwasanaeth Cerdyn C yn rheolaidd, gan ddangos mwy o hyder wrth ofyn am help a gwneud dewisiadau gwybodus.

### Astudiaeth Achos 2: Penderfyniadau rhyw mwy diogel mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn ddelfrydol (Bl 9)

Yn dilyn sesiwn atal cenhedlu yng Nghlwb Ieuenctid Gofalwyr Ifanc y Fro, cofrestrodd bachgen 13 oed ar gyfer y cynllun Cerdyn C gyda gweithiwr prosiect YMCA. Er ei bod dan 16 oed, ystyriwyd bod hyn yn briodol o dan Ganllawiau Fraser oherwydd y cymorth cyfyngedig roedd hi’n ei gael gartref. Fis yn ddiweddarach, dychwelodd i'r clwb ieuenctid a gofynnodd yn hyderus i aelod o staff hyfforddedig am fwy o gondomau. Arweiniodd hyn at sgwrs agored am ei phenderfyniad i ddod yn rhywiol weithgar. Er ei bod hi'n ifanc, roedd wedi cymryd rhagofalon priodol, ac nid oedd angen unrhyw ymyrraeth frys. Cafodd ei hannog gan yr aelod o staff i gysylltu â'i nyrs ysgol, sydd bellach yn ei chefnogi gydag anghenion atal cenhedlu a diogelu parhaus.

*“ar wahân i'r sesiwn mae'r [aseswyr cerdyn C] yn bobl hawdd mynd atynt”*

Er bod y cynllun Cerdyn C yn hyrwyddo oedi gweithgarwch rhywiol, mae'n hanfodol ein bod yn darparu cymorth diogel, anfarnol i bob person ifanc – yn enwedig y rhai mewn sefyllfaoedd lle maen nhw’n agored i niwed.

### Sut mae llywodraethwyr yn gallu cefnogi'r gwaith hwn?

Mae llywodraethwyr yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau bod ysgolion yn hyrwyddo datblygiad iach, diogelwch personol a lles. Dyma sut y gallwch chi helpu:

#### Hyrwyddo Addysg Perthnasoedd

- Sicrhau bod ysgolion yn gwneud y defnydd gorau o wasanaethau SHOT i gefnogi eu cwricwlwm APIRh
- Gofyn am ddiweddariadau rheolaidd gan arweinwyr ysgolion am nifer y rhai sy'n mynd i'r sesiynau a sut mae'r sesiynau'n cael eu cyflwyno

#### Hyrwyddo hyfforddiant staff a'r defnydd o wasanaethau

- Annog ystod o staff i fynychu gwasanaethau Iechyd Rhyw a Cherdyn C
- Sicrhau bod nifer o gofrestrwyr Cerdyn C hyfforddedig a gweithredol yn eich ysgol sy'n cael eu hysbysebu'n dda ymhlith y bobl ifanc

#### Cysylltu â Gwasanaethau Lleol

- Gwahodd y Gwasanaeth Perthnasoedd Iach i gynnal gweithdai a/neu wasanaethau ysgol i hyrwyddo gwasanaethau iechyd rhyw lleol (fel y Clinig Iechyd Rhyw galw heibio i'r rhai dan 18 oed)

#### Diogelu Cynhwysiant

- Monitro sut mae adborth gan fyfyrwyr yn cael ei ddefnyddio i lunio sut mae sesiynau grŵp a cherdyn C yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol.



Trwy fod yn rhagweithiol, mae llywodraethwyr yn gallu helpu i greu amgylchedd lle mae pobl ifanc yn cael mynediad i'r gwasanaethau iechyd rhyw gorau sydd ar gael i'w helpu i wneud penderfyniadau iach a diogel gyda chymorth. I gael rhagor o wybodaeth, trefnu ymweliad

Swansea University
Prifysgol Abertawe

## Gwahoddiad i gymryd rhan ym Mhrosiect Ymchwil Prifysgol Abertawe.

## ADY, Diwygio ADY ac Addysg Gynhwysol Llywodraethwyr Ysgolion

Annwyl Lywodraethwr Ysgol,

Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn darn o ymchwil dan arweiniad Dr Dai Thomas o Adran Addysg ac Astudiaethau Plentyndod Prifysgol Abertawe. Mae'r astudiaeth yn ceisio nodi dealltwriaeth a gwybodaeth ynghylch ADY, diwygiadau ADY ac addysg gynhwysol llywodraethwyr ysgolion yng Nghymru.

Bydd eich cyfranogiad yn yr astudiaeth hon yn cymryd tua 25 munud i gwblhau arolwg ar-lein dienw. Bydd cwestiwn olaf yr arolwg yn gofyn a oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn cyfweliad lled-strwythuredig dilynol ar-lein trwy Microsoft Teams. Disgwylir na fydd unrhyw gyfweliad yn cymryd mwy na 30 munud a bydd yn cael ei drefnu am amser sy'n fwyaf cyfleus i chi.

Os ydych chi'n hapus i gwblhau'r arolwg ar-lein, rwy'n gofyn yn garedig i hyn gael ei wneud erbyn 20 Awst 2025.

Cofion gorau

Dai

**Dolen i'r Arolwg:** Arolwg Ymchwil Llywodraethwyr Ysgol Prifysgol Abertawe

School Governor Research Survey

Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

CYLCHLYTHYR

Rhifyn 61 Tymor yr Haf 2025

# Dysgu Cymraeg yn y Fro




Er ein bod ni’n dysgu Cymraeg i bobl ifanc 16+, rydym yn deall pwysigrwydd cydweithio â'r holl ysgolion lleol. Mae hanes addysg cyfrwng Cymraeg yn y Fro yn mynd yn ôl yn hirach nag y mae pobl yn aml yn sylweddoli. Ychydig wythnosau yn ôl, daeth Siân Simpson i roi sgwrs am yr addysg cyfrwng Cymraeg sydd wedi bod ar gael ers 1952. Rydyn ni wedi dod yn bell ers yr adeg pan fynychodd dim ond 15 o blant ysgol dros dro yng nghapel y Methodistiaid yn Nhregatwg.



Nawr rydyn ni'n gweld addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal ag addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn cael eu cyflwyno mwy a mwy mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Dyna un o'r rhesymau pam nad ydym yn gweithio gyda'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig. Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau blasu Cymraeg i rieni mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Ar hyn o bryd mae un o'r tiwtoriaid yn cynnig cyflwyniad i'r Gymraeg i rieni a gweddill cymunedau ysgolion Llanilltud Fawr, gan weithio gydag Ysgol y Ddraig, Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr, Ysgol Gynradd Illtud Sant ac Ysgol Gymraeg Dewi Sant.  Byddwn yn estyn hyn i fwy o ysgolion trwy'r Fro ym mis Medi.

Mae staff wedi gallu cael mynediad i gyrsiau Cymraeg ers sawl blwyddyn bellach ac mae llawer o staff cymorth wedi dweud wrthym ei bod yn wych cynnig cymorth ychwanegol i gymuned yr ysgol wrth iddynt ddefnyddio ymadroddion bob dydd gyda'i gilydd.

Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn falch iawn o gyhoeddi y bydd holl staff yr ysgol unwaith eto yn gallu ymuno â'n dosbarthiadau am ddim. Mae'n bosibl cofrestru a nodi 'cyflogwr yn talu'. Ar yr adeg hon, gallwch ddweud pa ysgol rydych chi'n gweithio ynddi neu rydych chi'n llywodraethwr iddi. Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau wrth gofrestru neu ddewis y lefel

**Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro**

**CYLCHLYTHYR**

Rhifyn 61 Tymor yr Haf 2025

# Diweddariad Tymor yr Haf am Ddysgu a Sgiliau

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid o £70m ar gyfer Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar ledled Cymru. Diben y cyllid cyfalaf hwn yw cefnogi a gwella'r seilwaith gofal plant a Dechrau'n Deg presennol. Prif amcanion y rhaglen gyfalaf yw sicrhau bod y sector gofal plant yng Nghymru yn cael ei gryfhau ac yn cefnogi'r rhaglen ar gyfer ymrwymiadau Llywodraeth Cymru.

Mae cipolwg ar rai o'r prosiectau yr ydym wedi bod yn eu datblygu ar safleoedd Ysgolion i ddarparu rhagor o ofal plant ledled y Fro yn cynnwys:

**Cylch Chwarae Dragonflies yn Ysgol Iau Dinas Powys-** Cwblhawyd hwn ym mis Mai 2024 ac mae'n cefnogi'r cynnig 2 oed.



**Adnewyddu Ysgol Tregatwg**- Contractwyr yn dechrau ar y safle ar 27 Mehefin a bydd y gwaith yn para tan fis Hydref 2025. Bydd yr adeilad yn darparu ar gyfer y cynnig 2 oed a chynnig gofal plant.




# Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

## CYLCHLYTHYR

Rhifyn 61 Tymor yr Haf 2025


**Estyniad Bumblebees ar safle Ysgol Colcot** – Hysbyswyd y bydd y contractwyr yn dechrau ar y safle ar 4 Awst 2025 gan gwblhau'r gwaith ar 9 Hydref 2025. Bydd yr estyniad yn darparu lle ar gyfer plant 1-2 oed.




**Ysgol/Ardal Ward Sant Baruc-** Trafodaethau mewnol yn cael eu cynnal ac maen nhw'n adolygu opsiynau ar y safle neu dir cyfagos lle gellid lleoli darpariaeth gofal plant.



**Cylch Meithrin Pen-y-Garth, Penarth-** Cytunwyd ar gynlluniau arfaethedig i ddarparu ar gyfer 30 o leoedd cofrestredig, ac mae achos busnes i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.




Ar gyfer unrhyw ymholiadau am unrhyw un o'r uchod, cysylltwch â Claire yn: cmhaydon@valeofglamorgan.gov.uk

# Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

## CYLCHLYTHYR

Rhifyn 61 Tymor yr Haf 2025

**Ynghylch Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro**

**Pwyntiau arbennig i'w nodi:**

- Ffurfiwyd AVAGO ym 1996 a chafodd ei ail-lansio yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (CLIYF)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys hyd at 15 llywodraethwr etholedig ynghyd â 2 riant-lywodraethwr etholedig.

Sefydlwyd CLIYF i wneud y canlynol:

- Hyrwyddo arfer gorau yn y maes llywodraethu mewn ysgolion yn Awdurdod Addysg Lleol Bro Morgannwg
- Hyrwyddo partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r ALI
- Cydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau adnoddau digonol ar gyfer yr ysgolion yn yr AALI

**Pwyllgor Rheoli CLIYF 2024-26**

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys Llywodraethwyr etholedig a'r ddau Gynrychiolydd sy'n Rhiant-Lywodraethwyr (un o'r sector Cynradd ac un o'r sector Uwchradd).

| Rhif | Enw | Ysgol |
|---|---|---|
| 1 | Mr Peter Cate (Is-gadeirydd) | Ysgol Gynradd Parc Jenner |
| 2 | Mr John Duxbury | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant |
| 3 | Ms Jodie Evans | Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Pen y Garth |
| 4 | Mr G Griffiths | Ysgol Gwaun y Nant ac Ysgol Sant Curig |
| 5 | Mrs Jackie Griffiths | Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff |
| 6 | Y Cynghorydd Andrew Hennessey | Ysgol Gynradd y Rhws ac Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen |
| 7 | Mrs Sarah Jenkins | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint Andras ac Ysgol Gyfun Sant Cyres |
| 8 | Mr Gordon Kemp | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas ac Ysgol Gynradd South Point |
| 9 | Dr Chris Lee | Ysgol Gyfun Sant Cyres |
| 10 | Y Cynghorydd Julie Lynch-Wilson | Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr ac Ysgol Gynradd Sain Tathan |
| 11 | Dr Martin Price (Cadeirydd) | Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn |
| 12 | Mr Jasper Roberts | Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr ac Ysgol Gynradd Illtud Sant |
| 13 | Mrs Terri Vaughan-Taylor | Ysgol Gyfun y Bont-faen |
| 14 | Mr Owen William | Ysgol Sant Baruc |
| 15 | Y Cynghorydd Mark Wilson | Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria |

**Cynrychiolwyr sy'n Rhiant-lywodraethwyr (CRhL)**

**Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro**

# CYLCHLYTHYR

Rhifyn 61 Tymor yr Haf 2025

## Uned Cymorth Llywodraethwyr Bro Morgannwg

**E-bost: governors@valeofglamorgan.gov.uk**

**Manylion Cyswllt:**

**John Sparks**
**Pennaeth Cymorth Llywodraethwyr a Chwynion Ysgolion**
**Ffôn; 01446 709106**
**E-bost: jsparks@valeofglamorgan.gov.uk**

**Francesca Wright**
**Uwch Swyddog Cymorth Llywodraethwyr**
**Ffôn: 01446 709125**
**E-bost: fwright@valeofglamorgan.gov.uk**

Mae gan Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro gyfeiriad e-bost y gallwch gysylltu â nhw arno. VSGA@valeofglamorgan.gov.uk yw e neu gallwch gysylltu â'r Gymdeithas trwy'r post yn: Uned Cymorth Llywodraethwyr Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro, Y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau, Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bro Morgannwg, Heol Holltwn, Y Barri CF63 4RU



**Dymunwn wyliau Haf hamddenol a phleserus i'r holl lywodraethwyr**